# Ceraint o dan Bren Ceirios

Sefydlwyd Cymdeithas Cyfeillgarwch Aberystwyth Yosano gan Frank Evans (1917–96), gŵr o Geredigion a fu'n garcharor yn Siapan yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Mae hi'n hawdd, mi wn, i ni
Na welodd ddiddynoli
– Ni na phrofodd ddioddef
Llwgu erioed na llaw gref –
Sgubo'r hylltra'n lân o lwch;
Mae'n hawdd dymuno heddwch.

'Mae adeg i gymodi,
A dod yn nes,' dwedwn ni,
Fel 'tai gweld bai'n dod i ben
Yn hwylus yn yr heulwen,
Ond ein braw nid yw'n breuhau'n
Anorfod fel hen arfau.

Yn y co' nid yw cynnen
Yn ceulo fyth fel clwyf hen
Oni wrth-wneir ei thân hi;
Hen elyn, ei ddynoli
A wnawn pan dorrwn ninnau
Air ag ef drwy ddrws ar gau.

Ni weithia hedd wrtho'i hun,
Rhaid inni'i swcro wedyn,
Er hawsed, i bob rheswm,
Bellhau ein hwynebau llwm;
Ie, pobol ŷm, er pob lo's,
Ceraint o dan bren ceirios.

Ffrwythloni'r anialdiroedd,
Dyfrio had yfory oedd
Cymodi i Frank, medi ffrwyth
Cydernes nes dôi Ystwyth
A Nodagawa'n gywaith.
Ymlynu a wnawn. 'Mlaen â'i waith.

*Eurig Salisbury*